Ymddiheuriadau am yr oedi wrth ymateb i'r cwestiynau.

Roedd yn dda iawn gennym gyflwyno sylwadau i'r pwyllgor ar faterion tra phwysig yn ymwneud a dyfodol Addysg Gymraeg ac yn edrych mlaen i'r adroddiad maes o law.

O ran y cwestiynau penodol y'ch chi wedi holi:

- Rhan o'r broses o ddatblygu darpariaeth yn y sector cyfrwng Saesneg yw symud ysgolion ar hyd y continwwm iaith (h.y. o gyfrwng Saesneg i ddwyieithog, neu ddwyieithog i gyfrwng Cymraeg). Pa dystiolaeth sydd i ddangos bod awdurdodau lleol wedi mynd i'r afael â hyn yn ddigonol yn eu Cynlluniau Strategol, ac os na, beth sy'n gorfod newid?

Prin iawn yw'r dystiolaeth hyd y gwelwn ni yn gyffredinol. Mae o leiaf un awdurdod wedi dechrau ar y broses yn benodol gydag ysgolion Cynradd (Sir Gar) ond mae hynny mewn cyd-destunau ieithyddol penodol ble mae canran sylweddol o'r rhieni (a'r gymuned ehangach yn siarad Cymraeg). Ein safbwynt ni fel Coleg yw fod angen ystyried sgiliau iaith y gweithlu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn benodol iawn a rhoi pob cefnogaeth i athrawon yn y sector Saesneg i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg. Mae hyn yn wir hefyd ar gyfer y rheiny sy'n hyfforddi i ddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae symud Ysgol ar hyd y continwwm iaith yn llawer mwy ymarferol os yw'r staff yn medru'r ddwy iaith yn hyderus i ddechrau.

- Mae nifer o fudiadau wedi cyfeirio at yr angen i feithrin capasiti arbenigwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg, gyda'r Comisiynydd Plant yn nodi bod diffyg mynediad at gymorth cyfrwng Cymraeg yn fater systemig ledled Cymru. Allwch chi ymhelaethu ychydig ar yr heriau penodol o ran cynyddu nifer y staff cyfrwng Cymraeg sydd ag arbenigeddau pwnc priodol, gan gynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae yna her cyffredinol o ran sicrhau digon o staff addysgu sy'n medru'r Gymraeg, ac mae'r her hynny yn cael ei amlygu wrth ddelio gydag arbenigeddau penodol e.e. arbenigwyr ADY neu athrawon Gwyddoniaeth. Ein barn ni fel y Coleg yw fod angen ehangu'n sylweddol y nifer o athrawon sy'n cael eu hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg, a datblygu mentrau penodol ychwanegol i gefnogi twf y proffesiwn mewn meysydd ble mae'r niferoedd yn arbennig o brin.

Ar fater mwy eang, mae'r broses o ail-achredu Canolfannau Hyfforddi Athrawon ar fin cychwyn, a buaswn yn awgrymu fod hyn yn gyfle da iawn i osod fframwaith mwy cadarn o ran hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg; ac hyfforddiant i'r sawl sydd ar hyn o bryd yn dymuno mynd i weithio yn y sector cyfrwng Saesneg ble mae dybryd angen cefnogi a gwella eu sgiliau iaith yn sylweddol.

Cofion atat

Dafydd

________________

Dr Dafydd Trystan

Cofrestrydd / Registrar

Coleg Cymraeg Cenedlaethol